

# electoral administration bulletin



Rhifyn 374 (Cymru) – 19 Mehefin 2024

## Etholiad Cyffredinol Senedd y DU Cefnogi'r broses o ddilysu a chyfrif

Nawr bod enwebiadau ar gyfer etholiad Senedd y DU ar 4 Gorffennaf bellach wedi cau, a bod y papurau pleidleisio yn barod ac yn cael eu hargraffu, roedden ni'n awyddus i'ch atgoffa am y canllawiau a'r cymorth sydd ar gael i'ch cefnogi gyda'r gwaith o gynllunio a chynnal y broses ddilysu a chyfrif.

Gan eich bod bellach yn gwybod pa ymgeiswyr sy'n sefyll yn eich ardal chi, mae'n bwysig ailedrych ar eich cynlluniau cyfrif gwreiddiol i wirio eu bod yn dal i fod yn addas, neu a oes angen addasiadau i sicrhau bod y broses gyfrif yn rhedeg yn llyfn, yn ddiogel, ac yn effeithlon.

Ymhlith y ffactorau i'w hystyried mae nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll, lefel y profiad sydd gan yr ymgeiswyr a'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir o sefyll mewn etholiad, a'u dealltwriaeth o'r prosesau etholiadol, yn ogystal â risgiau neu broblemau lleol a allai fod angen eu rheoli'n fanylach adeg y broses gyfrif.

Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), chi sy'n gyfrifol am gynnal y cyfrif, a chi sydd yn y sefyllfa orau i ddeall unrhyw amgylchiadau lleol penodol y bydd angen eu hadlewyrchu neu eu rheoli yn eich cynlluniau. Serch hynny, rydyn ni yma i'ch helpu sut bynnag gallwn ni. Os oes gennych unrhyw bryderon penodol neu newydd, neu os hoffech drafod unrhyw drefniadau neu faterion unigol, mae croeso i chi gysylltu â'ch tîm Comisiwn Etholiadol lleol.

Yn ogystal â'r wybodaeth sydd yn ein [dogfen ystyriaethau](#) ar gynnal Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ar 4 Gorffennaf 2024, isod mae gwybodaeth i'ch atgoffa o'r canllawiau craidd i'ch cefnogi i gynllunio a chyflawni proses gyfrif lwyddiannus:

### Cynllunio a diogelwch

Dylech ailedrych ar eich [cofrestr risg](#) ac asesu a oes angen newidiadau nawr eich bod yn gwybod pwy sy'n sefyll yn yr etholiad yn eich ardal. Gallai hyn hefyd gynnwys ailedrych ar [eich cynlluniau diogelwch yn ystod y broses gyfrif](#) – gan gynnwys sut

The  
Electoral  
Commission

## Cynnwys

### Cefnogi'r broses ddilysu a chyfrif

Trosolwg o'r canllawiau sydd ar gael.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maen nhw'n un o'n prif sianeli cyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am newidiadau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu ni i gadw ein rhestrau post yn gyfredol.

Os oes penodiad newydd ar gyfer Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy anfon e-bost at [infowales@electoralcommission.org.uk](mailto:infowales@electoralcommission.org.uk)

Rydyn ni'n anfon y cylchlythyr hwn atoch chi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn ffurfio rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol, sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn ni'n rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y Deyrnas Unedig fel a amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd>)

Os nad ydych chi'n dymuno derbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddad-danysgrifio](#) ar unrhyw adeg.

byddwch chi'n rheoli mynediad i'r digwyddiad, a'ch [cynlluniau wrth gefn ehangach](#).

Mae cyngor diogelwch ehangach ar eich cyfer chi ac ymgeiswyr ac asiantau hefyd wedi'u cyhoeddi gan yr Uned Diogelwch a Pharodrwydd Etholiad ar y Cyd, yn yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar dudalennau [Canllawiau Diogelwch Etholiadol](#).

Mae ein [canllawiau cynnal uniondeb yr etholiad](#) yn rhannu manylion ar gyfer gweithio gyda'ch Pwynt Cyswllt Unigol os oes gennych unrhyw bryderon.

## Prosesau Cyfrif

Mae ein [canllawiau i Swyddogion Canlyniadau \(Gweithredol\) ar y broses ddilysu a chyfrif](#) yn cyflwyno'r prosesau i'w dilyn wrth weinyddu'r broses ddilysu a chyfrif, gan gynnwys canllawiau ar reoli'r mynychwyr – gan gynnwys ymgeiswyr ac asiantau a'r cyfryngau – i sicrhau bod modd iddynt weld yr holl brosesau mewn ffordd sy'n cefnogi proses lwyddiannus ac effeithlon o gyfrif.

Mae canllawiau penodol hefyd ar gael ar ymdrin â cheisiadau i ailgyfrif a chydraddoldeb pleidleisiau, a gallai fod yn ddefnyddiol i chi ailedrych ar y rhain cyn y broses gyfrif hefyd.

Er bod gofyniad i ddechrau'r broses gyfrif ymhen pedair awr o ddiwedd y cyfnod pleidleisio, mae yna ystod o ffactorau a allai effeithio ar eich gallu i wneud hynny. Ar ôl adolygu eich cynlluniau cyfrif, os byddwch chi'n credu na allwch chi ddechrau cyfrif'r pleidleisiau ymhen pedair awr o ddiwedd y cyfnod pleidleisio, mae'n rhaid i chi gyhoeddi datganiad a'i gyflwyno i'r Comisiwn sy'n manylu ar yr amgylchiadau a'r penderfyniadau a wnaed ynghylch hyn. Rydyn ni wedi cynhyrchu datganiad templed i'ch cefnogi â hyn. Os byddwch chi'n poeni am amseru eich proses gyfrif leol, cysylltwch â ni i drafod hyn.

## Ymgeiswyr ac Asiantau

Mae ein canllawiau i [Ymgeiswyr ac Asiantau](#) yn cyflwyno gwybodaeth am y broses gyfrif ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau ac mae hefyd yn egluro rôl yr [asiantau cyfrif](#). Gellir rhannu'r rhain gydag ymgeiswyr a'u hasiantau cyn y broses gyfrif. Gallai ein [canllawiau i arsylwyr](#) hefyd fod o gymorth i helpu i sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt.

## Cyfathrebu

Fel bob amser, bydd cyfathrebu gyda'r holl fynychwyr cyn ac yn ystod y broses gyfrif yn sicrhau ei bod yn broses agored a thryloyw, a bod pawb sy'n bresennol yn ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn a pha ymddygiadau a ddisgwylir. Mae ein canllawiau cynllunio yn cynnwys [rhoi gwybodaeth am y broses gyfrif i ymgeiswyr ac asiantau](#). Yn ogystal, mae gennym ganllawiau pellach mewn perthynas â [chyfathrebu yn ystod y broses ddilysu a chyfrif](#) sy'n cynnwys rheoli cyhoeddiadau a datganiadau.

## Y cyfryngau

Bydd ein canllawiau [gweithio gyda'r cyfryngau](#) a [chynghor ychwanegol ar reoli'r cyfryngau yn ystod y broses gyfrif](#) hefyd yn eich cefnogi i reoli presenoldeb y cyfryngau adeg y broses gyfrif.

---

Comisiwn Etholiadol Cymru  
Llawr 3, Tŷ James William  
9 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd  
CF10 3BD  
Ffôn: 0333 103 1929

[infowales@electoralcommission.org.uk](mailto:infowales@electoralcommission.org.uk)

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

© Y Comisiwn Etholiadol 2024